# Hysbysiad Preifatrwydd Asiantaethau Rhanbarthol Bank of England Awst 2022

## Gwybodaeth a gasglwn

Trwy ein rhyngweithiadau â chi, mae’r Bank of England yn casglu data personol. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys eich enw, gwybodaeth gyswllt proffesiynol a busnes a gweithle. I'r graddau y byddwch yn eu datgelu yn ein rhyngweithiadau, rydym hefyd yn casglu eich barn.

Er mwyn nodi unigolion ledled y wlad a all helpu'r Bank i gefnogi ei genhadaeth i hyrwyddo lles pobl y Deyrnas Unedig trwy gynnal polisi ariannol a sefydlogrwydd ariannol, efallai y byddwn ni’n defnyddio cronfeydd data masnachol, a rhai ffynonellau sydd ar gael i’r cyhoedd.

## Pam mae angen eich data personol arnom

Rydym yn casglu’ch data personol er mwyn gallu cyfathrebu ac ymgysylltu â chi fel rhan o waith ymchwil a chynrychioliadol rhanbarthol y Banc. Ein sail ar gyfer prosesu'r data hyn yw eu bod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol y Banc. I’r graddau rydych yn darparu unrhyw gategorïau arbennig o ddata personol i ni (megis manylion eich barn wleidyddol), ein sail ar gyfer prosesu’r data hyn yw eu bod yn angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i’r cyhoedd.

## Yr hyn a wnawn â'ch data personol

Mae’r wybodaeth a ddarperir gennych yn berthnasol i waith polisi, dadansoddol, gweithredol a goruchwyliol y Bank.

Yn ystod ein cysylltiad â chi efallai y byddwn ni’n cynnal arolygon o amodau busnes. Lle bo’n bosibl, byddwn ni’n cynnal yr arolygon gyda chi wyneb yn wyneb. Pan nad yw hynny'n bosibl, efallai y byddwn ni’n e-bostio dolen unigryw i ffurflen arolwg atoch. Rydym yn defnyddio darparwr trydydd parti i gyflwyno ein ffurflenni arolwg, WorldAPP Inc i ddarparu'r offeryn ar-lein KeySurvey a Microsoft i ddarparu'r offeryn arolwg Forms. Mae'r trydydd partïon hyn wedi'u lleoli yn yr Unol Daleithiau. Lle trosglwyddir data personol i’r Unol Daleithiau, defnyddir mecanwaith a gydnabyddir gan gyfraith diogelu data’r DU i sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn eu lle (cymalau contractiol safonol neu gytundeb trosglwyddo data rhyngwladol). I gael rhagor o wybodaeth am arferion diogelwch a pholisi preifatrwydd WorldAPP Inc ewch i keysurvey.com/privacy-policy. Mae rhagor o wybodaeth am bolisi preifatrwydd Microsoft ar gael yn: Datganiad Preifatrwydd Microsoft.

Mae’n bosibl y byddwn ni hefyd yn anfon gwahoddiadau atoch i’n digwyddiadau a manylion cyhoeddiadau perthnasol gan y Bank of England. Mae’n bosibl y byddwn ni’n rhannu’ch gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon perthnasol (megis lleoliadau cynadledda) er mwyn gweinyddu digwyddiadau, ac at ddibenion diogelwch a diogelwch tân. Ar gyfer digwyddiadau ar raddfa fawr, efallai y byddwn ni hefyd yn defnyddio'r ffurflen ar-lein a ddarperir gan WorldAPP Inc i reoli ymatebion.

Mae'r Bank yn cadw gwybodaeth o adroddiadau ymweliadau cwmni am 5 mlynedd o'n rhyngweithiad diwethaf gyda chi. Byddwch hefyd yn cael eich tynnu oddi ar ein rhestr bostio gwahoddiadau pan fyddwch yn gadael eich sefydliad presennol (oni bai eich bod yn gofyn yn benodol i ni gadw’ch gwybodaeth) neu ar eich cais.

## Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau o dan ddeddfau diogelu data. Er enghraifft, mae gennych hawl i ofyn i ni am gopi o'r data personol y mae'r Bank yn eu cadw amdanoch. Gelwir hyn yn 'Gais Gwrthrych am Wybodaeth'. Gallwch ofyn i ni newid sut rydym yn prosesu neu'n delio â'ch data personol, ac efallai y bydd gennych hefyd yr hawl mewn rhai amgylchiadau i gael eich data personol wedi'u diwygio neu wedi'u dileu.

Er mwyn cysylltu â ni am yr hawliau hynny, gan gynnwys gwneud cais am y data personol sydd gennym amdanoch, i wneud cwyn neu i ddysgu rhagor am breifatrwydd a diogelu data yn y Banc, gweler ein gwefan yn http://www.bankofengland.co.uk/privacy, e-bostiwch ni yn data-protection@bankofengland.co.uk neu gallwch ysgrifennu atom yn:

Preifatrwydd

Bank of England

Threadneedle Street

Llundain

EC2R 8AH

Os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb neu os ydych yn credu nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).